***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 641 (Cy. 147)

# HENEBION HYNAFOL, CYMRU

## Rheoliadau Henebion Hynafol (Hawliadau am Ddigolllediad) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Mai 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *8 Mai 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Mai 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 47 a 60 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), a thrwy'r pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1AD a 9ZL o'r Ddeddf honno(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Henebion Hynafol (Hawliadau am Ddigolledlediad) (Cymru) 2017 a deuant i rym ar 31 Mai 2017.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 1979" ("*the 1979 Act*") yw Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979.

### Hawliadau am ddigolledlediad

**2.**—(1) Rhaid gwneud hawliad am ddigolledlediad i Weinidogion Cymru yn ysgrifenedig, a rhaid ei gyflwyno fel ei fod yn dod i'w llaw hwythau o fewn cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ag—

(a) yn achos digolledlediad sy'n daladwy o dan adran 1AD o Ddeddf 1979 (digolledlediad am golled neu ddifrod a achosir gan warchodaeth interim), y dyddiad y mae'r warchodaeth interim yn peidio â chael effaith;

(**1**) 1979 p. 46.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) Mewnosodwyd adrannau 1AD a 9ZL gan adrannau 3(1) a 13(1) yn eu tro o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (anaw 4) ("Deddf 2016").

(b) yn achos digolllediad sy'n daladwy o dan adran 7 o Ddeddf 1979 (digolledlediad am wrthod cydsyniad heneb gofrestredig)(**4**), ddyddiad yr hysbysiad gwrthod neu, yn ôl y digwydd, ddyddiad rhoi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau cydsyniad heneb gofrestredig;

(c) yn achos digolledlediad sy'n daladwy o dan adran 9 o Ddeddf 1979 (digolledlediad pan fo gwaith sy'n effeithio ar heneb gofrestredig yn peidio â bod yn awdurdodedig), y dyddiad y mae'r gwaith yn peidio â bod yn awdurdodedig;

(d) yn achos digolledlediad sy'n daladwy o dan adran 9ZL o Ddeddf 1979 (hysbysiad stop dros dro: digolledlediad)—

(i) o dan yr amgylchiadau a nodir yn adran 9ZL(2)(a) o Ddeddf 1979, y dyddiad yr arddangosir yr hysbysiad stop dros dro am y tro cyntaf; neu

(ii) o dan yr amgylchiadau a nodir yn adran 9ZL(2)(b) o Ddeddf 1979, y dyddiad y tynnir yr hysbysiad stop dros dro yn ôl; neu

(iii) o dan yr amgylchiadau pan fo paragraffau (i) a (ii) ill dau o is-baragraff (d) yn gymwys, y diweddaraf o'r dyddiadau sy'n gymwys i'r paragraffau hynny;

(e) yn achos digolledlediad y gellir ei adennill o dan adran 46 o Ddeddf 1979 (digolledlediad am ddifrod a achosir drwy arfer pwerau penodol o dan y Ddeddf hon)(**5**), y dyddiad yr achoswyd y difrod neu, pan fo'r difrod wedi ei achosi o ganlyniad i weithred sy'n parhau, y dyddiad y daeth y weithred i ben.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod rheswm rhesymol dros fethu â gwneud hawliad o fewn y cyfnod a nodir ym mharagraff (1) cânt ar unrhyw adeg estyn y cyfnod y caniateir gwneud hawliad o'i fewn.

**Darpariaeth dirymu ac arbed**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae Rheoliadau Henebion Hynafol (Hawliadau am Ddigolledlediad) (Cymru) 1991(**6**) wedi eu dirymu.

(2) Mae'r Rheoliadau a grybwyllir ym mharagraff (1) yn parhau i gael effaith mewn perthynas â hawliad am ddigolledlediad sy'n dod i law Gweinidogion Cymru cyn 31 Mai 2017.

*Ken Skates*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

4 Mai 2017

(**4**) Diwygiwyd adran 7 gan adran 10(1) a (2) o Ddeddf 2016. Ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.
(**5**) Diwygiwyd adran 46 gan adran 12(1) o Ddeddf 2016.
(**6**) O.S. 1991/2647.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Henebion Hynafol (Hawliadau am Ddigolledigad) (Cymru) 1991 at ddiben gweithredu newidiadau a wnaed i Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ("Deddf 1979") gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

Mae rheoliad 2 yn gwneud darpariaeth weithdrefnol ynghylch y cyfnod y mae'n rhaid gwneud hawliadau am ddigolledigad o'i fewn, a'r dull o wneud yr hawliadau hynny, o dan adrannau 1AD (digolledigad am golled neu ddifrod a achosir gan warchodaeth interim), 7 (digolledigad am wrthod cydsyniad heneb gofrestredig), 9 (digolledigad pan fo gwaith sy'n effeithio ar heneb gofrestredig yn peidio â bod yn awdurdodedig), 9ZL (hysbysiad stop dros dro: digolledigad) a 46 (digolledigad am ddifrod a achosir drwy arfer pwerau penodol o dan y Ddeddf hon) o Ddeddf 1979, i Weinidogion Cymru.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth ddirymu ac arbed mewn cysylltiad â Rheoliadau Henebion Hynafol (Hawliadau am Ddigolledigad) (Cymru) 1991.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.